CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

CÔD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

IONAWR 2004

Cynnwys

1. Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol....1
2. Ffocws Cymunedol 3
3. Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau 5
4. Strwythurau a Phrosesau....6
5. Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol....8
6. Safonau Ymddygiad....10
7. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol....12

1. Cyflwyniad i Lywodraethu Corfforaethol

1.1. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych rôl allweddol wrth lywodraethu ac arwain ei gymunedau. Mae llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar ffydd y cyhoedd mewn cynghorwyr etholedig a swyddogion. Mae llywodraethu corfforaethol da wrth wraidd hygrededd a ffydd yn ein gwasanaethau cyhoeddus a dylai fod yn dryloyw i'r rhanddeiliaid i gyd.

1.2. Mae Llywodraethu Corfforaethol wedi'i ddiffinio fel "y system drwy ba un y mae awdurdodau lleol yn cyfarwyddo ac yn rheoli eu swyddogaethau ac yn dod i berthynas â'u cymunedau".

1.3. Rhaid inni allu dangos ein bod yn cydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol llywodraethu da, sef:

- **Didwylledd a chynwysoldeb** – rydym yn ddidwyll yn ein hymwneud ac yn cyfathrebu ac ymgysylltu â phob rhan o'r gymuned i annog cyfranogi gweithredol
- **Uniondeb** – yn ein hymwneud wrth feithrin cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat/gwirfoddol
- **Atebolrwydd** – i randdeiliaid am ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd wrth gyflenwi gwasanaethau a defnyddio adnoddau'n gynaladwy

1.4. Os ydym am gyflawni hyn, mae angen trosi'r egwyddorion hyn yn fframwaith sy'n ceisio sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn ein dull o gynnal ein busnes a rhaid inni hefyd sefydlu ffordd o ddangos bod ein systemau a'n proses yn:

- cael eu monitro o ran eu heffeithiolrwydd yn ymarferol
- cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn gyfamserol

1.5. Gellir ond cadw at egwyddorion llywodraethu da os caiff arweinyddiaeth ei harfer drwy:

- ddarparu gweledigaeth ar gyfer ein cymuned ac arwain drwy esiampl wrth inni wneud penderfyniadau ac mewn prosesau a gweithredoedd eraill
- aelodau a rheolwyr yn ymddwyn yn unol â safonau ymddygiad uchel

1.6. Mae angen i egwyddorion sylfaenol llywodraethu corfforaethol gael eu hadlewyrchu yn y gwahanol ddimensiynau o'n busnes sy'n dilyn:

- Ffocws Cymunedol
- Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau
- Strwythurau a Phrosesau
- Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol
- Safonau Ymddygiad

1.7. Caiff yr egwyddorion hyn eu diffinio'n llawn yn adrannau canlynol y Côd sydd wedi'i baratoi yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Cipfa a SOLACE.

2. Ffocws Cymunedol

2.1. Trwy gyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a'n gallu i ddylanwadu'n ehangach, rydym yn:

- gweithio i'r gymuned a gyda'r gymuned
- arfer arweinyddiaeth yn y gymuned leol, ble mae'n briodol
- ymgymryd â rôl "lysgenhadol" i hyrwyddo lles yr ardal, ble mae'n briodol

2.2. Rydym felly'n cynnal trefniadau effeithiol:

- gogyfer ag atebolrwydd croyw i randdeiliaid am ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd wrth gyflenwi gwasanaethau a defnyddio adnoddau'n gynaladwy
- i ddangos uniondeb yn ein hymwneud wrth feithrin cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau cyhoeddus eraill a'r sector preifat/gwirfoddol
- i ddangos didwylledd yn ein hymwneud
- i ddangos cynwysoldeb trwy gyfathrebu ac ymgysylltu â phob rhan o'r gymuned i annog cyfranogi gweithredol
- i ddatblygu a rhoi llais i weledigaeth a strategaeth gorfforaethol glir a chyfamserol mewn ymateb i anghenion y gymuned

2.3. Mae'r trefniadau canlynol yn dangos ein hymrwymiad i ffocws cymunedol.

- Cyhoeddir adroddiad blynyddol yn amserol yn rhoi cyfrif gwrthrychol, dealladwy o'n gweithgareddau a'n cyflawniadau ac o'n sefyllfa a'n perfformiad ariannol.
- Cyhoeddir cynllun perfformiad yn amserol yn rhoi cyfrif ac asesiad gwrthrychol, cytbwys a dealladwy o'n perfformiad cyfredol wrth gyflenwi gwasanaethau a'n cynlluniau i gynnal a gwella ansawdd gwasanaethau.
- Mae trefniadau priodol wedi'u gweithredu i adolygu'r prosesau cyflwyno adroddiadau ariannol a gweithredol yn annibynnol.

- Mae trefniadau priodol wedi'u gweithredu i annog unigolion a grwpiau o bob rhan o'r gymuned i ymgysylltu â, cyfrannu at a chyfranogi yng ngwaith yr awdurdod ac rydym wedi rhoi prosesau monitro priodol yn eu lle i sicrhau eu bod yn parhau i weithio yn ymarferol.

- Rydym yn gwneud ymrwymiad croyw i fod yn ddidwyll yn ein holl ymwneud, yn amodol yn unig ar yr angen i gadw cyfrinachedd yn yr amgylchiadau penodol hynny ble mae'n iawn a phriodol gwneud hynny.

- Sefydlir sianeli cyfathrebu clir gyda phob rhan o'r gymuned a rhanddeiliaid eraill a byddwn yn sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol.

- Rydym yn sicrhau bod gweledigaeth ar gyfer y gymuned leol a'n cynlluniau, blaenoriaethau a thargedau strategol yn cael eu datblygu drwy beirianwaith cadarn a gan ymgynghori â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol eraill, a'u bod yn cael eu mynegi a'u lledaenu'n glir.

3. Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau

3.1. Rydym yn sicrhau ein bod yn ceisio gwelliannau parhaus, bod polisïau y cytunwyd arnynt yn cael eu gweithredu a phenderfyniadau'n cael eu rhoi mewn grym drwy gynnal trefniadau sy'n:

- cyflawni ein hatebolrwydd am gyflenwi gwasanaethau ar lefel leol
- sicrhau effeithiolrwydd drwy osod targedau a mesur perfformiad
- dangos uniondeb wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaethau a datblygu partneriaethau i sicrhau'r ddarpariaeth iawn o wasanaethau yn lleol
- dangos didwylledd a chynwysoldeb trwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau
- hyblyg fel bod modd eu cadw'n gyfamserol a'u haddasu i gymryd newidiadau a chwrdd â dymuniadau defnyddwyr

3.2. Rydym wedi rhoi'r trefniadau canlynol yn eu lle i ddangos ein hymrwymiad i gyflenwi gwasanaethau effeithiol.

- Safonau a thargedau perfformiad wrth gyflenwi gwasanaethau yn gynaladwy a gan gyfeirio at bolisïau cydraddoldeb.
- Systemau cadarn ar gyfer darparu gwybodaeth rheoli at ddibenion mesur perfformiad.
- Mae perfformiad yn cael ei fonitro a chyflwynir adroddiadau arno yn ôl safonau a thargedau y cytunwyd arnynt ac rydym yn datblygu cynlluniau perfformiad cynhwysfawr a dealladwy.
- Mae trefniadau yn eu lle i ddyrannu adnoddau yn ôl blaenoriaethau.
- Rydym yn meithrin cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau eraill y sector cyhoeddus a'r sectorau preifat a gwirfoddol ac yn ystyried darparu gan gyflenwyr allanol ble mae'n effeithlon ac effeithiol gwneud hynny wrth gyflenwi gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y gymuned leol ac yn rhoi prosesau yn eu lle i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol.
- Rydym yn ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau ac argymhellion archwilwyr mewnol ac allanol ac arolygwyr statudol ac yn rhoi trefniadau yn eu lle i gamau y cytunwyd arnynt gael eu gweithredu'n effeithiol.

4. Strwythurau a Phrosesau

4.1. Rydym wedi sefydlu strwythurau a phrosesau gwleidyddol a rheolaethol effeithiol i reoli gwneud penderfyniadau ac arfer awdurdod. Rydym yn cynnal trefniadau i:

- ddiffinio rôl a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion i sicrhau atebolrwydd, eglurder a threfnu da ar ein busnes
- sicrhau bod archwilio ac adolygu priodol ar holl agweddau perfformiad ac effeithiolrwydd
- dangos effeithiolrwydd drwy sicrhau cydbwysedd grym ac awdurdod priodol
- dogfennu strwythurau a phrosesau o'r fath yn glir a sicrhau eu bod yn cael eu traddodi a'u deall i ddangos didwylledd a chynwysoldeb
- sicrhau bod strwythurau a phrosesau o'r fath yn cael eu cadw'n gyfamserol a'u haddasu i gymryd newidiadau

4.2. Rydym wedi rhoi'r trefniadau canlynol yn eu lle i sefydlu strwythurau a phrosesau effeithiol.

Cydbwysedd Grym ac Awdurdod

- Rydym wedi sefydlu protocolau sydd wedi'u dogfennu'n glir sy'n rheoli'r cysylltiadau rhwng aelodau a swyddogion.
- Rydym yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau perthynol aelodau gweithredol ac aelodau eraill, aelodau'n gyffredinol ac uwch swyddogion wedi'u diffinio'n glir.

Rolau a Chyfrifoldebau - Aelodau

- Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd i osod cyfeiriad strategol yr awdurdod ac i fonitro cyflenwi gwasanaethau.
- Mae cynllun pwerau dirprwyedig neu neilltuedig wedi'i ddatblygu sy'n cynnwys atodlen ffurfiol o'r materion hynny sydd wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer cydbenderfyniad yr awdurdod.
- Rydym wedi sefydlu prosesau rheoli sydd wedi'u dogfennu a'u deall yn glir ar gyfer datblygu polisïau, eu gweithredu a'u hadolygu ac ar gyfer gwneud penderfyniadau, eu monitro a'u rheoli a chyflwyno adroddiadau arnynt.

- Mae rheoliadau trefniadol ac ariannol ffurfiol i reoli'r dull o gynnal ein busnes wedi'u gweithredu.

- Mae aelodau'n derbyn hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl ac maent yn cael defnyddio'r holl wybodaeth, cyngor ac adnoddau perthnasol sydd eu hangen i'w galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol.

- Mae rôl ein haelodau gweithredol wedi'i diffinio'n ffurfiol yn ysgrifenedig, yn cynnwys cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol effeithiol i'r awdurdod ac am sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni'n llwyddiannus ei gyfrifoldebau cyffredinol am weithgareddau'r awdurdod fel cyfangorff.

- Rydym wedi diffinio'n glir yn ysgrifenedig rôl ac atebolrwydd holl aelodau'r awdurdod ynghyd â thelerau eu tâl a'i adolygiad.

Rolau a Chyfrifoldebau – Swyddogion

- Rydym wedi gwneud y Prif Weithredwr yn gyfrifol i'r awdurdod am bob agwedd ar reolaeth weithredol.

- Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau wedi'i wneud yn gyfrifol i'r awdurdod am sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi iddo ar bob mater ariannol, am gadw cofnodion ariannol a chyfrifon priodol ac am gynnal system rheolaeth ariannol fewnol effeithiol.

- Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol i'r awdurdod am sicrhau bod gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn cael eu dilyn ac y cydymffurfir â'r holl statudau, rheoliadau a datganiadau arfer da perthnasol eraill sy'n gymwys.

- Rydym wedi diffinio'n glir yn ysgrifenedig rôl a chyfrifoldebau'r holl uwch swyddogion ynghyd â thelerau eu tâl a'i adolygiad.

- Rydym wedi mabwysiadu protocolau a chodau ymddygiad clir i sicrhau bod oblygiadau cefnogi arweinyddiaeth wleidyddol gymunedol y cyngor cyfan yn cael eu cydnabod a'u datrys.

5. Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol

5.1. Rydym wedi sefydlu strategaeth, fframwaith a phrosesau systematig ar gyfer rheoli risg. Gyda'i gilydd, mae'r trefniadau hyn:

- yn cynnwys gwneud datganiadau cyhoeddus i randdeiliaid ar ein strategaeth, fframwaith a phrosesau rheoli risg i ddangos atebolrwydd
- yn cynnwys peirianwaith ar gyfer monitro ac adolygu effeithiolrwydd yn ôl safonau a thargedau y cytunwyd arnynt a gweithrediad rheolaethau yn ymarferol
- yn dangos uniondeb drwy fod wedi'u seilio ar systemau cadarn ar gyfer canfod, proffilio, rheoli a monitro pob risg strategol a gweithredol arwyddocaol
- yn dangos didwylledd a chynwysoldeb drwy gynnwys pawb sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau, yn cynnwys partneriaid
- yn cynnwys peirianwaith i sicrhau bod y broses rheoli a chadw rheolaeth ar risg yn cael ei monitro i weld ei bod yn dal i gydymffurfio er sicrhau bod newidiadau yn yr amgylchiadau yn cael eu derbyn a'i bod yn aros yn gyfamserol

5.2. Rydym wedi rhoi'r trefniadau canlynol yn eu lle i ddangos rheolaeth effeithiol ar risg.

- Rydym wedi datblygu systemau cadarn ar gyfer canfod a gwerthuso'r holl risgiau arwyddocaol sy'n golygu cyfranogiad rhagweithiol pawb sy'n gysylltiedig â chynllunio a chyflenwi gwasanaethau.
- Mae systemau rheoli risg effeithiol wedi'u sefydlu, yn cynnwys systemau rheolaeth fewnol a swyddogaeth archwilio fewnol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl statudau, rheoliadau a datganiadau arfer gorau perthnasol sy'n gymwys ac yn sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu diogelu'n briodol a'u defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn unol â'r awdurdodau statudol a'r awdurdodau arall sy'n rheoli eu defnydd.
- Mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi gan bobl hyfforddedig a phrofiadol.

- Rydym wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer adolygiad gwrthrychol o effeithiolrwydd rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn cynnwys archwilio mewnol.

- Mae perthynas wrthrychol a phroffesiynol yn cael ei chynnal gyda'n harchwilwyr allanol a'n harolygwyr statudol.

- Rydym yn cyhoeddi'n amserol, o fewn yr adroddiad blynyddol, ddatganiad ac asesiad gwrthrychol, cytbwys a dealladwy o beirianweithiau rheoli risg a rheolaeth fewnol yr awdurdod a'u heffeithiolrwydd yn ymarferol.

6. Safonau Ymddygiad

6.1. Mae didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd unigolion o fewn yr awdurdod yn ffurfio conglfaen llywodraethu corfforaethol effeithiol. Mae ein henw'n dibynnu ar safonau ymddygiad pawb yn yr awdurdod, pa un ai'n aelodau, gweithwyr neu asiantiaid wedi'u contractio i'r awdurdod.

6.2. Felly, mae ein haelodau a'n swyddogion yn:

- arfer arweinyddiaeth drwy ymddwyn fel delfrydau ymddwyn i eraill o fewn yr awdurdod eu dilyn
- diffinio safonau ymddygiad personol a ddisgwylir gan aelodau a staff a phawb sydd a wnelo â chyflenwi gwasanaethau ac yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau:

  - atebolrwydd drwy sefydlu systemau ar gyfer ymchwilio i dor-rheolau a phroblemau disgyblaeth a chymryd camau ble mae'n briodol, yn cynnwys trefniadau i'w hunioni

  - effeithiolrwydd yn ymarferol drwy fonitro eu cydymffurfiaeth

  - fod gwrthrychedd a didueddrwydd yn cael eu cynnal ym mhob perthynas i ddangos uniondeb

  - fod safonau o'r fath wedi'u dogfennu a'u deall yn glir i ddangos didwylledd a chynwysoldeb a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau y cânt eu cadw'n gyfamserol

6.3. Rydym wedi rhoi'r trefniadau canlynol yn eu lle i ddangos effeithiolrwydd ein safonau ymddygiad.

- Rydym wedi datblygu a mabwysiadu codau ymddygiad ffurfiol sy'n diffinio'r safonau ymddygiad personol y mae'n rhaid i aelodau unigol, swyddogion ac asiantiaid yr awdurdod eu harddel ac wedi rhoi systemau a phrosesau priodol yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â nhw.
- Mae trefniadau wedi'u rhoi yn eu lle i sicrhau na chaiff aelodau a gweithwyr yr awdurdod eu dylanwadu gan ragfarn, tuedd neu wrthdrawiad buddiannau wrth ddelio â gwahanol randdeiliaid ac rydym wedi rhoi prosesau priodol yn eu lle i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu yn ymarferol.

- Rydym wedi rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n gweithgareddau wedi'u cynllunio'n unol â safonau moesegol priodol ac i fonitro eu bod yn dal i gydymffurfio yn ymarferol.

- Mae trefniadau chwythu chwib, y mae staff a phawb sy'n contractio gyda'r Cyngor yn gallu cael atynt, wedi'u rhoi yn eu lle.

7. Cyflwyno Adroddiad Blynyddol

7.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod pwysigrwydd llywodraethu corfforaethol da wrth gynnal ffydd y cyhoedd mewn llywodraeth leol. Rydym, felly, yn cyhoeddi datganiad yn flynyddol yn ein datganiadau ariannol ar sut ydym yn rhoi'r egwyddorion a nodwyd yn y Côd hwn ar waith a sut ydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion.

7.2. Arwyddir y datganiad blynyddol gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar ran swyddogion ac aelodau.

7.3. Mae'r datganiad yn crynhoi sut ydym wedi monitro cydymffurfiaeth â'r Côd a sut ydym wedi bodloni ein hunain fod y Côd yn ddigonol ac yn effeithiol. Bydd unrhyw newidiadau cynlluniedig yn ein trefniadau llywodraethu corfforaethol yn cael eu nodi yn y datganiad blynyddol.